## Adroddiad Cyfarfod 08:11:23 Gwen Orlick a Lynda Szekely - Tropic

Croesawyd pawb i'r noson gan ein Llywydd Jen Roberts.

Roedd dipyn o newyddion hapus a dwys i'w rannu gyda'r gangen. Rhannwyd ein llongyfarchion â Gwen a ddaeth yn nain unwaith eto i Myfi Nant, chwaer fach i Guto Nant.
Erbyn hyn rydym yn gwybod mai enw ŵyr bach Wendy ydy Jim Spiro – wedi ei enwi ar ôl ei ddau daid.

Dymunwyd yn dda i Anne Ellis yn dilyn triniaeth. Mae hi'n cryfhau bob dydd ac yn bwriadu bod yn ein cwmni nos Wener ar gyfer y Cwis Hwyl Cenedlaethol. Hefyd dymunwyd wellhad buan i Falmai sydd wedi cael triniaeth unwaith eto yn yr ysbyty.

Anfonwyd ein cydymdeimlad at Mabel sydd wedi colli ei gŵr Thomas Alun, ac i Enda a gollodd ei chwaer annwyl Ann yn ddiweddar.

Estynwyd ein llongyfarchiadau i aelodau o'r gangen a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth 'Talent Bethel' yn Eisteddfod Bethel ar Hydref y 14eg. Roedd Gwenan, Nan, Mair Read, Anita a Rhian yn cymryd rhan mewn sgetsh a chawsant eu canmol am eu perfformiad. Cawsant y wobr gyntaf a rhodd o £30 ac fe'i cyflwynwyd at gost y bws ar ein taith ddiwedd tymor.

Cyhoeddwyd newyddion da gan Bethan Vaughan Carwright, Panel Cyfryngau Cymru fod ein grwp wedi casglu 100 credyd ac felly rydym yn derbyn £50 i'n cyfrif banc!

Dymunwyd yn dda i'r ddau dim o gangen Bethel a fydd yn cymryd rhan yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol ar nos Wener y 10fed o Dachwedd. Yn nhîm 1 mae Gwen James, Mair Price a Gwenan ac yn nhîm 2 mae Eirlys Williams, Mary Wyn Jones a Nan Rowlands. Diolchwyd yn fawr iawn hefyd i'r pwyllgor a fydd yn darparu lluniaeth am y noson.

Roedd nifer o hysbysebion i'w hadrodd hefyd:-

a) Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Bedol ar 09/11/23 rhwng 1 a 2 ar gyfer rhai sy'n dysgu ac i ymarfer eu Cymraeg.

b) Ffair Nadolig yn Ysgol Brynrefail ar 09/11/23 rhwng 6 ac 8.

c) Marchnadoedd Nadolig mewn amryw o leoliadau yng Nghaernarfon ar Tachwedd y 18fed. Y lleoliadau ydy, Galeri, Neuadd y Farchnad, yr Hen Lys, Cei Llechi a'r Orsaf. Bydd Meira yna gyda'i stondin Gwlân y Bwthyn.

ch) Mae clwb wythnosol wedi dechrau i rai dros 60 yn Porthi Dre bob dydd Llun rhwng 10 a 4. Bydd amrywiaeth o weithgareddau, cyfle i gymdeithasu a chael pryd poeth. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Meira.

Gweithgareddau digidol MYW Cenedlaethol – mae'r nosweithiau canlynol wedi eu trefnu dros fisoedd y Gaeaf.

Tachwedd 22ain – 'Llawn Cariad' (syniadau ar gyfer siopa Nadolig)

Rhagfyr 19eg- Cracyr Nadolig

Pwyllgor Celf a Chrefft Rhanbarth Arfon:- Cynhelir cwrs ffeltio dan ofal Cath Pari yng Nghanolfan Heddeiddio'n Dda, Bontnewydd rhwng 10 ac 1 o'r gloch. Cost y cwrs yw £10 a gellir prynu cinio am £10. Mae nifer cyfyngedig o lefydd ar ôl. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Mair Read.

Mae baner y rhanbarth wedi dod i'r fei ar ôl sawl blwyddyn o fod ar goll. Mae'r Pwyllgor Celf a Chreff wedi penderfynu adnewyddu'r faner gan fod enwau'r rhai canghenau arni bellach ddim yn bodoli. Gofynnir felly i'r canghenau a fyddent yn fodlon helpu gyda'r gwaith brodio.

Ein gwestai fis yma oedd Cwmni Harddwch Tropic. Yn ein harwain trwy'r noson oedd Gwen Orlick (merch leol) a Linda Szekely. Cyflwynwyd stori Tropic drwy gêm a stori a mawr oedd yr hwyl yn ein mysg. Gwobrwyd rhai ac anrheg fach o'u cynnyrch.

Mae cynnyrch Tropic yn gynnyrch gwbl naturiol a dechreuwyd y cwmni gan Susan Ma yn 2007. Mae bellach yn boblogaidd iawn ym mysg pobl o bob oedran ac mae wedi ennill sawl gwobr am eu cynnyrch hollol naturiol a chynaladwy. Bu Gwen yn ein cyflwyno i nifer o beth sydd ar gael a'u nodweddion a fyddai'n addas ar gyfer pob math o groen. Roedd y merched yn awyddus iawn i gael pori a phrofi'r y cynnyrch ar ddiwedd y noson ac chael cyfle i brynu gan gofio fod y Nadolig yn prysur nesau.

Noson ddifyr iawn a phawb wedi mwynhau!